**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-954

Ein cyf/Our ref JM/00186/2

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru Tŷ
Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Ebrill 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC

Diolch yn fawr ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth.

Mae mater Ynys Bŷr wedi bod gerbron Siambr y Cynulliad nifer o weithiau ers 2017.

Mae'r Gweinidogion i gyd wedi ffieiddio at y cam-drin hanesyddol a ddigwyddodd ar yr ynys. Rydym wedi parhau i annog pob unigolyn sydd â gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gam-drin a ddigwyddodd ar Ynys Bŷr, Sir Benfro, i gysylltu â'r heddlu. Rwyf innau hefyd yn ailadrodd y cais hwn.

Mae rhai o'r dioddefwyr/goroeswyr wedi cael iawndal eisoes, a dylai'r rheini sydd heb ei gael geisio cyngor cyfreithiol os ydynt am ddod ag achos.

Os yw dioddefwyr/goroeswyr am rannu eu profiadau, rwy'n eu hannog i gysylltu â Phrosiect Gwirionedd yr IICSA (*Independent Inquiry into Child Sexual Abuse*); mae swyddfa'r ymchwiliad yng Nghymru yn awyddus i dderbyn datganiadau gan bobl sydd am rannu eu profiad o gam-drin gyda'r ymchwiliad. Cynhelir y sesiynau hyn yn breifat.

Mae'r adborth a gafwyd gan ddioddefwyr a goroeswyr sydd wedi mynychu'r sesiynau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r ddeiseb yr ydych yn ei hystyried yn dweud:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel dioddefwr cam-drin plant gan offeiriaid a mynachod Catholig, rwyf yn dymuno gweld Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus i gam-drin plant hanesyddol ar Ynys Bŷr. Mae angen i ddioddefwyr gael y gwirionedd ac atebion i pam mae ymchwiliad sydd wedi parhau am 29 o flynyddoedd wedi methu'r dioddefwyr. Bydd yr ymchwiliad yn helpu i ddiogelu plant yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y mater hwn nifer o weithiau. Hyd yn hyn, mae wedi gwrthod galwadau i gynnal ymchwiliad, ac nid yw o'r farn bod achos wedi ei wneud dros hynny.

Fel Llywodraeth, ymddiriedir ynom i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau, ac i wneud penderfyniadau diduedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym felly wedi pwyso a mesur wrth benderfynu a fyddai ymchwiliad yn arwain at ganlyniadau y gellid dysgu ohonynt er mwyn gwella canlyniadau diogelu yn y dyfodol.

Fe wnaethom edrych ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu. Ymchwiliodd yr heddlu i'r honiadau yn 2014 a 2016, ac yn y ddau achos fe wnaethant benderfynu peidio â dilyn y mater ymhellach. Daethpwyd â'r honiadau i sylw'r heddlu gyntaf yn 2014, ac nid yw'r ddeiseb yn gywir gan nad oes gennym dystiolaeth o unrhyw ymchwiliad parhaus sydd wedi para 29 o flynyddoedd.

Mae dau ffactor hanfodol wedi effeithio ar benderfyniad yr Heddlu i beidio â bwrw ymlaen â'r materion dan sylw.

Yn gyntaf, nid yw dau unigolyn allweddol ar gael i roi tystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw honiadau. Mae'r cyflawnwr, Kotik, a hefyd yr Abad, wedi marw. Ni fyddai'n bosibl dod â chyhuddiadau yn eu herbyn na'u gorfodi i roi tystiolaeth.

Ni fyddai cynnal ymchwiliad cyhoeddus neu beidio yn dod ag unrhyw wybodaeth newydd naill ai o ran eu cymhelliant, nac ychwaith sut y llwyddodd y cyflawnwr i osgoi cael ei ddal am gyfnod mor hir, rhywbeth y byddai disgwyl iddo fod yn un o ganlyniadau allweddol ymchwiliad o'r fath. Ni fyddai gan yr heddlu lawer i'w gynnig i'r ymchwiliad o ran gwybodaeth o'u hymchwiliadau. Rydym hefyd wedi ystyried bod ymchwiliad annibynnol (*the Independent Inquiry in to Child Sexual Abuse - IICSA*) yn parhau i fynd rhagddo gyda'r nod o edrych ar fethiannau sefydliadol er mwyn gwella'r gallu i ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod am y digwyddiadau ar Ynys Bŷr i'r ymchwiliad annibynnol hwnnw, ac mae'r IICSA wedi dweud eu bod yn fater o ddiddordeb iddo. Nid ydym o'r farn y byddai dyblygu gwaith yr IICSA yn ddefnydd doeth o'n hadnoddau cyfyngedig.

Yn ail, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod yr heddlu wedi cyfweld â rhieni yr oedd eu plant wedi dweud am y cam-drin wrthynt, ac a ddewisodd beidio â rhoi gwybod i'r awdurdodau.

Buom yn ystyried a fyddai ymchwiliad o'r fath yn galluogi'r bobl a oedd wedi cael eu cam-drin i gael cyfiawnder a/neu iawndal yn gyflym. Fel yr adroddwyd yn y Western Mail yn 2017, cafodd chwe menyw iawndal gan abaty'r ynys ar ôl cymryd camau cyfreithiol i dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cael eu cam-drin gan y Tad Thaddeus Kotik. Gan fod cymryd y camau hyn wedi arwain at gael cyfiawnder ac iawndal i'r menywod hynny, heb i ymchwiliad gael ei gynnal, nid ydym yn argyhoeddedig y byddai ymchwiliad yn ychwanegu unrhyw beth nad yw wedi ei gyflawni eisoes drwy'r llwybrau sydd ar gael i hawlio cyfiawnder ac iawndal.

Fe wnaethom ystyried y byddai dysgu gwersi am ymddygiad sefydliadau yn un o ddibenion eraill cynnal ymchwiliad. Yn gyntaf dyma'r prif reswm dros gynnal yr ymchwiliad annibynnol (IICSA), a phe baem ni'n cynnal ymchwiliad yn yr achos hwn byddem yn dyblygu gwaith yr

ymchwiliad hwnnw. Yn ail, cafodd ei nodi gennym mai barn y Comisiynydd Plant oedd nad oedd digon o fanylion inni allu cynnal ymchwiliad.

Yn olaf, fe wnaethom gymryd i ystyriaeth y camau cyfreithiol sy’n parhau i gael eu cymryd gan Kevin O’Connell a ddioddefodd cam-drin rhywiol hanesyddol ar Ynys Bŷr pan oedd yn blentyn. Cymerodd Mr O’Connell ran mewn rhaglen deledu yn ddiweddar, ac mae wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus i’r digwyddiadau ar yr ynys, ac mae wedi dechrau cymryd camau cyfreithiol drwy ei gyfreithiwr Michael Imperato. Ni fyddai’n briodol cyhoeddi a fyddai Llywodraeth Cymru yn lansio ymchwiliad i’r digwyddiadau hyn, na chyhoeddi i’r gwrthwyneb, tra bo’r camau cyfreithiol hynny’n disgwyl penderfyniad.

Rydym o’r farn bod rhesymau cryf, nad ydynt yn ymwneud â chostau, i beidio â bwrw ymlaen â chynnal ymchwiliad. Mae’n annhebygol y bydd y Llywodraeth yn newid ei meddwl oni bai bod tystiolaeth newydd yn dod i’r golwg.

Yn gywir,



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services